## Nofio am ddim

Mae Cyngor Sir y Fflint yn darparu sesiynau nofio am ddim, drwy gyfrwng arian gan Lywodraeth Cymru, i:

- Blant a phobl ifanc 16 oed ac iau yn ystod gwyliau'r ysgol
- Pobl 60 oed a hŷn drwy gydol y flwyddyn

**Sut i gofrestru i gael nofio am ddim**

Rhaid i bawb sydd am fanteisio ar y cynllun nofio am ddim gofrestru ag *actif* a rhaid iddynt ddangos eu cerdyn *actif* bob tro y byddant yn dod i'r pwll. Mae hyn yn berthnasol i blant a phobl ifanc 16 oed ac iau ac i bobl 60 oed a hŷn. Os na fyddwch yn dangos eich cerdyn *actif* i'r staff yn nerbynfa'r pwll nofio, yn anffodus, bydd yn rhaid i chi dalu'r tâl arferol i ddefnyddio'r pwll nofio.

**16 oed ac iau**

Cofiwch fod Polisi Defnyddio Pyllau Nofio Cyngor Sir y Fflint yn gymwys i blant dan 8 oed sy'n manteisio ar y sesiynau nofio am ddim.

**60+ hŷn**

Er mwyn cofrestru i fanteisio ar y sesiynau nofio am ddim, mae'n rhaid i bobl 60 oed a hŷn ddangos tystiolaeth eu bod yn gymwys drwy ddangos dogfennau priodol (pasbort, trwydded yrru, pas bws etc) i'r staff yn nerbynfa'r pwll nofio. Yna bydd eu hawl i gymryd rhan mewn sesiynau nofio am ddim yn cael ei gynnwys ar eu cofrestriad ag *actif*.

**Pa byllau nofio yn Sir y Fflint sy'n cynnig sesiynau nofio am ddim?**

Mae'r pum pwll nofio sy'n eiddo i Gyngor Sir y Fflint (Canolfan Hamdden Pafiliwn Jade Jones y Fflint, Canolfan Hamdden Treffynnon, Canolfan Hamdden yr Wyddgrug, Canolfan Hamdden Bwcle a Phwll Nofio Cei Connah) yn cynnig sesiynau chwarae rhydd, sy'n ddi-dâl, a gweithgareddau strwythuredig am ddim (gwersi nofio, snorclo, polo dŵr etc).

**Pryd y caiff y sesiynau chwarae rhydd am ddim a’r gweithgareddau strwythuredig am ddim eu cynnal a sut ydw i’n neilltuo lle arnynt?**

**16 oed ac iau**

Caiff y sesiynau chwarae am ddim eu cynnal ar amseroedd penodol yn ystod gwyliau’r ysgol. Ffoniwch y pwll nofio perthnasol i gael rhagor o fanylion. I neilltuo lle ar weithgaredd strwythuredig, unwaith eto, cysylltwch â’r pwll nofio’n uniongyrchol. Mae’n rhaid i rieni/gwarcheidwaid neilltuo lle ar ran y plentyn.

**60+ oed**

Gall pobl 60+ oed fynd i nofio am ddim yn ystod unrhyw sesiwn nofio gyhoeddus yn unrhyw un o’n pum pwll nofio. I neilltuo lle ar weithgaredd strwythuredig, ffoniwch safle’r pwll nofio perthnasol yn uniongyrchol.

**Chwaraeon Cymru**

*Chwaraeon Cymru* (Cyngor Chwaraeon Cymru gynt) sy’n rheoli’r Fenter Nofio am Ddim ar ran Llywodraeth Cymru. I gael rhagor o fanylion am y rhaglen nofio genedlaethol, ewch i Chwaraeon Cymru.

Chwaraeon Cymru